# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 20 Mehefin, 2025.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr W.A. Hennessy, G. Bruce a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Mrs. L Luani (Ymgeisydd), Mr. M. Jones (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd) K. Evans (Swyddog Trwyddedu – Cyngor Bro Morganwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol – Cyngor Bro Morganwg), L. Whitaker (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Bro Morganwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi'r Cynghorydd W.A. Hennessy yn Gadeirydd am hyd gwrandawiad yr Is-bwyllgor.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU O FUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

EITEM AGENDA 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 – AMRYWIO TRWYDDED SAFLE – GREEK ISLANDS, 202 HEOL HOLTON, Y BARRI CF63 4HQ (AT) –

PENDERFYNWYD – BOD y cais am Drwydded Safle yn cael ei ganiatáu, gan gynnwys yr holl amodau ychwanegol a gyflwynwyd, ac eithrio’r angen am staff goruchwylio drysau, a chyda’r amod yn ymwneud â rheoli stoc yn cael ei ddiwygio i ‘rheoli stoc alcohol’.

Rhesymau dros y penderfyniad

Wrth ddod i'w benderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd wedi ystyried Deddf Drwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr Amcanion Trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref, ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, er bod sylwadau wedi'u gwneud gan Heddlu De Cymru ynghylch aelod o staff a oedd yn gweithio yn y safle, a ystyriwyd yn ofalus gan yr Is-bwyllgor, nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Ymgeisydd, ac nid oeddent yn sail i wrthod y cais a oedd o fewn cylch gwaith yr Is-bwyllgor. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod Greek Islands wedi bod yn gweithredu gydag alcohol yn cael ei ddwyn i'r safle gan gwsmeriaid heb i hyn achosi problemau hyd yn hyn. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y digwyddiadau eraill o drosedd ac anhrefn a

amlinellwyd yng nghyflwyniadau'r Heddlu yn gysylltiedig â safleoedd eraill ar Heol Holton, ac felly na ddylent effeithio ar roi'r drwydded hon.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau a osodwyd fel uchod yn briodol, ac roeddent yn ymwybodol, pe bai rhoi'r drwydded hon yn effeithio ar yr Amcanion Trwyddedu, yn seiliedig ar dystiolaeth newydd a/neu ymchwiliadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol, y gellid adolygu'r drwydded.